Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Daearyddiaeth

RHYNGWEITHIO AMGYLCHEDDOL

NODIADAU ATHRAWON

Mae'r wers hon yn archwilio Rhyngweithio Amgylcheddol. Bydd eich disgyblion yn cymryd rhan mewn chwarae rôl, a'r cwestiwn dan sylw yw a ddylid torri coed hynafol i lawr i greu lle ar gyfer parc sgrialu newydd.

Nodau

- Galluogi disgyblion i ddeall bod penderfyniadau cynllunio lleol yn aml yn seiliedig ar gyfaddawdu – allwch chi ddim plesio pawb.
- Galluogi disgyblion i ddysgu'n weithredol drwy waith grŵp

Agoriad

Dangoswch lun o'r tŷ pren a adeiladwyd gan brotestwyr. Anogwch y disgyblion i ofyn cwestiynau am y llun. Gallech wedyn esbonio'r canlynol: pam, ble, pwy, beth, pryd. (Digwyddodd hyn ger Ffordd Osgoi Newbury yn 1996 pan benderfynodd ychydig ddwsinau o bobl fyw i fyny'r coed gan gadwyno eu hunain i'r coed i geisio rhwystro Ffordd Osgoi Newbury rhag cael ei hadeiladu drwy goetir. Ni lwyddodd y protestwyr yn eu nod, ond roedd yn stori fawr ar y pryd. Efallai y bydd rhai disgyblion yn cofio Lisa ar *The Simpsons* yn dringo coeden i'w hachub).

Hefyd, mae'r wefan isod yn rhoi gwybodaeth am goedwigoedd (gan gynnwys rhai yng Nghymru) sydd o dan fygythiad: **www.woodsunderthreat.info**

Chwarae Rôl

Rhowch y disgyblion mewn grwpiau, a rhowch gerdyn chwarae rôl i bob grŵp sy'n rhoi gwybodaeth syml am bob rôl. Dylech wedyn eu hannog i gynllunio ar gyfer y rôl a gwisgo neu ganfod rhywbeth sy'n nodweddiadol o'r rôl, e.e. sgrialfwrdd neu het sgrialu, clipfwrdd, bathodyn Coed Cadw, bathodyn plaid wleidyddol, "het ffarmwr", ayyb.

Gollwng y rôl

Cofiwch ei bod yn bwysig sicrhau bod y disgyblion yn gollwng y rôl cyn iddynt adael y wers. Os ydynt yn frwdfrydig iawn, gall y drafodaeth/dadl/rôl barhau ar ôl y wers!!

Sgiliau – Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau

2. esbonio achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol a'r gydberthynas rhwng y prosesau
3. esbonio sut a pham y bydd lleoedd ac amgylcheddau yn newid, ac adnabod tueddiadau a goblygiadau i'r dyfodol

Sgiliau – Cyfathrebu

1. datblygu barn a deall bod gwahanol werthoedd, agweddau a safbwyntiau gan bobl ar faterion daearyddol
2. asesu tuedd a dibynadwyedd tystiolaeth ddaearyddol i bwyso a mesur dadleuon, gwneud penderfyniadau a datrys problemau
3. cyfleu casgliadau, syniadau a gwybodaeth gan ddefnyddio termau daearyddol, mapiau, delweddau gweledol, amrywiaeth o dechnegau graffigol a TGCh

Ystod

- astudio amgylcheddau dan fygythiad: nodweddion a phosibiliadau ar gyfer eu datblygiad cynaliadwy
- astudio dinasyddion y dyfodol: materion yng Nghymru a'r byd ehangach o fyw mewn modd cynaliadwy a chyfrifoldebau bod yn ddinesydd byd-eang
- gofyn ac ateb cwestiynau

Dosbarth Llawn/Gwaith Cartref

- Gofynnwch i'r disgyblion wneud dyluniad o dŷ pren eu protestwyr eu hunain.
- Ysgrifennwch grynodeb o'ch penderfyniad cynllunio chi, ac esboniwch pam eich bod wedi gwneud y penderfyniad hwn.
- Gallwch ofyn iddynt ar ôl 3 gwers a yw eu safbwyntiau wedi newid o gwbl dros y gwersi.

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk **www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Daearyddiaeth

RHYNGWEITHIO AMGYLCHEDDOL

Datblygu'r ddadl

Mae yna gyfle yma ar gyfer safbwyntiau gwahanol. Ceisiwch annog y disgyblion i archwilio safbwyntiau gwahanol i helpu dangos nad yw'n rhwydd gwneud penderfyniadau.

Dylai rhai rhieni fod o blaid y parc, ac eraill yn ei erbyn. Mae'n bosibl y gallai'r Aelod Cynulliad gynnig cyfaddawd a fyddai'n cyfyngu ar oriau agor y parc neu a fyddai'n mynnu bod warden ar y safle i oruchwylio. Gallai rhai trigolion fod o blaid y parc, ond yn gofidio y byddai cystadlaethau mawr yn achosi gormod o sŵn, traffig a fandaliaeth. Gallech ddefnyddio cynghorydd lleol i dynnu sylw at wleidyddiaeth leol – gallai'r aelod hwnnw efallai ddechrau ymgyrch yn y papur newydd lleol a denu cefnogaeth – a byddai hynny'n llwyddo, yn enwedig o gofio'r fandaliaeth yn y parc blaenorol. Gallech ychwanegu gwraig fferm sydd YN ERBYN torri'r coed oherwydd ei bod yn gwybod fod yr adar sy'n byw yno yn cadw nifer y pryfed sy'n effeithio ar eu cnydau i lawr.

Dyma rai materion eraill y gallech eu cynnwys yn y senario hon:
Mynedfa i'r safle – ffordd/trac
Pwy sy'n talu amdano? – trethi lleol, grant loteri ....
A fydd y gymuned yn lle mwy hyfryd i fyw ynddi gyda'r parc neu'n lle llai hyfryd heb y coed?

Chwarae Rôl – *A ddylem adeiladu parc sgrialu?*

Bydd eich disgyblion yn cynnal chwarae rôl a'r cwestiwn dan sylw yw a ddylid torri coed i lawr mewn coedwig fach i greu parc sgrialu newydd.

Cymeriadau:

Arddegwyr

Aelod y Cynulliad(AC)

Cynghorydd Lleol

Ffermwr

Coed Cadw

Cymdeithas Trigolion

Rhieni'r sgrialwyr

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Helfa'r Coed Hynafol

CA3 Daearyddiaeth

RHYNGWEITHIO AMGYLCHEDDOL

Nodiadau Disgyblion (i'w llungopio ar gerdyn a'u torri)

A ddylem adeiladu parc sgrialu?

Byddwch yn cynnal chwarae rôl a'r cwestiwn dan sylw yw a ddylid torri coed i lawr mewn coedwig fach i greu parc sgrialu newydd.

Arddegwyr

Rwy'n hoffi sgrialu a hoffwn ddatblygu fy sgiliau. Mae'r parc sgrialu agosaf 5 milltir i ffwrdd ac mae'n rhaid i fi ddibynnu ar fy rhieni i fynd â fi a fy ffrindiau yno. Ni all fy rhieni fynd â fi bob amser, a rwyf weithiau'n defnyddio strydoedd a phalmentydd ger fy nghartref. Byddem yn gallu cynnal cystadlaethau a gwahodd timau eraill i ddod i arddangos eu sgiliau pe byddai gennym barc sgrialu.

Cynrychiolwyr Coed Cadw

Rydym am i'r cyngor lleol chwilio am safle arall. Mae'r coed yn iach ac yn rhy werthfawr i'w torri i lawr. Byddech yn colli –

a) safle sy'n gwarchod adar a phryfed
b) safle naturiol lle mae pobl yn mynd â'u cŵn am dro
c) rhai planhigion sy'n defnyddio carbon deuocsid
d) golygfa hyfryd.

Cymdeithas Trigolion

Hoffem ddweud bod pobl ifanc lleol yn gallu bod yn broblem ar lwybrau gyda'u sgrialfyrddau. Mae pobl sy'n gwthio pramiau a phobl hŷn wedi cael problemau wrth geisio symud o'u ffordd, a gwyddom fod rhai damweiniau wedi digwydd. Mae trigolion lleol yn hoffi mynd â'u cŵn am dro i'r goedwig leol, a byddai parc sgrialu newydd yn achosi problemau gyda chŵn. Mae'n bosibl hefyd y byddai rhai pobl hŷn sy'n hoffi mynd am dro drwy'r goedwig yn teimlo'n nerfus.

Rhieni sgrialwyr

Mae rhai ohonom o blaid y cynllun oherwydd ni fydd yn rhaid i ni yrru i'r parc sy'n bodoli eisoes. Mae rhai ohonom yn erbyn oherwydd os yw ein plant yn sgrialu ar y llwybrau ger ein tai, yna rydym yn gwybod ble mae nhw, a gallwn gadw llygad arnynt. Os ydynt yn mynd i'r parc newydd, pwy fydd yn goruchwylio yno ac yn cadw llygad ar ein plant?

Ffermwr

Y fi sy'n berchen y goedwig, a byddaf yn derbyn arian o'r cyngor gan y bydd yn rhaid iddynt brynu'r tir. Dydw i ddim yn defnyddio'r goedwig i ennill arian, felly does gen i ddim rheswm dros gadw'r coed.

Cynghorydd lleol

Rydw i'n sicr o blaid cadw'r coed yn y goedwig. Rwyf mewn lleiafrif ar y cyngor, felly mae'n rhaid i fi feddwl sut gallaf ennill cefnogaeth aelodau eraill. Fe allwn geisio cael y cyfryngau lleol i'm cefnogi. Cafodd y parc sgrialu a adeiladodd y cyngor ddwy flynedd yn ôl ei fandaleiddio'n reit fuan, a felly dydy o werth dim i neb erbyn hyn.

AC lleol (aelod y cynulliad)

Mae nifer o drigolion lleol wedi ysgrifennu ataf ynghylch y goedwig. Mae rhai ohonynt o blaid y parc sgrialu a rhai yn erbyn. Mae fy mhlaid yn genedlaethol yn awyddus i gefnogi "materion gwyrdd", ond fe fydd arnaf angen pleidleisiau lleol yn yr etholiad nesaf er mwyn i mi gadw fy sedd yn y Senedd. Fe geisiaf chwilio am gyfaddawd a fydd yn cadw'r ddwy ochr yn eithaf bodlon.

3720/06/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llun-gopio a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST